Rebecca Evans AS/MS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/KW/1552/2

Elin Jones AS
Y Llywydd
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

22 Ebrill 2021

Annwyl Lywydd,

Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan baragraff 3 o Atodlen 10 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, rwy'n eich hysbysu y bydd yr Offeryn Statudol hwn yn dod i rym ymhen llai na 21 diwrnod i'r dyddiad y cafodd ei osod. Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Rheoliadau ynghlwm, er gwybodaeth ichi.

Mae Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2021 ("y Rheoliadau") yn diwygio:

- Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007;
- Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015;
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017;
- Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017;
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018;
- Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018; a
- Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019.

Mae'r rheoliadau hyn yn sail i'r system cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru ac sy'n ymgymryd â chyrsiau addysg uwch dynodedig, yn nodi'r categorïau o bersonau sy'n gymwys i gael statws ffioedd cartref, yn awdurdodi rheolau cymhwystra mewn perthynas â dyfarniadau penodedig sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant ac yn nodi'r categorïau o bersonau a all elwa ar ffioedd dysgu wedi'u capio.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r Rheoliadau yn gwneud diwygiadau cymhleth a hir mewn perthynas ag Ymadael â'r UE sy'n angenrheidiol o ganlyniad i'r Cytundebau Ymadael ac i weithredu ar bolisi Llywodraeth Cymru ar gyllid myfyrwyr ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22. Rhaid i'r Rheoliadau fod mewn grym cyn y gall y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr agor ei systemau ar gyfer ceisiadau gan fyfyrwyr am gymorth. Fel arfer, mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn lansio ei gylch ceisiadau ganol fis Mawrth i sicrhau y bydd ceisiadau myfyrwyr yn cael eu hasesu a'r taliadau'n cael eu gwneud cyn dechrau'r flwyddyn academaidd. Oherwydd graddau'r diwygiadau a wneir a'r angen i geisio mewnbwn gan adrannau Llywodraeth y DU, nid yw wedi bod yn bosibl gwneud y Rheoliadau yn unol â'r amserlen arferol ac, o ganlyniad, mae lansiad y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr wedi'i ohirio eleni hyd 26 Ebrill.

Fel y nodwyd, bydd y Rheoliadau fel y'u gosodir yn dod i rym cyn y bydd 21 diwrnod wedi mynd heibio. Gwneir hyn i sicrhau nad yw dyddiad lansiad y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn cael ei ohirio eto. Pe cydymffurfir â'r confensiwn 21 diwrnod, byddai hyn yn golygu gohirio dyddiad lansiad y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr am bedair wythnos arall (yn sgil cylch gweithredol y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr). Byddai hyn yn golygu risg sylweddol a gwirioneddol na fyddai myfyrwyr yn cael eu cymorth ariannol ar gyfer dechrau'r flwyddyn academaidd newydd. Yn ei dro, gallai hyn gael effaith niweidiol ar allu person i ddechrau cwrs addysg uwch yn y flwyddyn academaidd newydd neu gallai fel arall arwain at galedi ariannol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dau 'Hysbysiad Gwybodaeth Cyllid Myfyrwyr Cymru' ac mae'r Gweinidog Addysg wedi gwneud datganiadau ar bolisi. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn golygu bod myfyrwyr a sefydliadau yn ymwybodol o'r newidiadau sydd i'w gwneud gan y rheoliadau. Mae'r rhai y mae'r rheoliadau yn effeithio arnynt wedi cael hysbysiad hir o'r newidiadau a wneir (yn fras, os nad yn fanwl) felly ni ddylai torri'r confensiwn 21 diwrnod gael effaith niweidiol arnynt.

Mae Memorandwm Esboniadol wedi cael ei lunio a'i osod, ynghyd â'r Rheoliadau, yn y Swyddfa Gyflwyno.

Anfonir copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

Rebecca Evans.

Rebecca Evans AS
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd